

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C

11 Rhagfyr 2014, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 382

Presennol:	Huw Jones Hugh Evans Aled Eirug Guto Harri Marian Wyn Jones Siân Lewis Elan Closs Stephens	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Elin Morris Dafydd Rhys Phil Williams Bethan C. Williams Carys Evans Steve Thomas Catrin Hughes Roberts Jane Felix Richards	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cynnwys) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Pennaeth Dadansoddi) (eitemau 6-10) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Gwybodaeth) (eitemau 6-10) (Cyfarwyddwr Partneriaethau) (eitemau 6-10) (Pennaeth Hyrwyddo a Marchnata) (eitemau 6-10)
Ymddiheuriadau	Carol Bell John Davies	(Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)

1. Croeso a Datganiadau diddordeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion cyfarfod 381 (a gynhaliwyd ar 13.11.14)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 381:

Cymeradwywyd y cofnodion.

3. Materion yn Codi**3.1 Adroddiad Interim i Ymddiriedolaeth y BBC (tud 2)**

Eglurodd ECS fod yr Ymddiriedolaeth wedi penderfynu cael crynodeb o berfformiad S4C yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd yn hytrach nac adroddiad interim neu gyflwyniad. Esboniwyd fod y drefn wedi bod yn wahanol y llynedd yn ystod blwyddyn gyntaf y bartneriaeth newydd gydag adroddiad interim yn cael ei gyflwyno. Nodwyd mai'r bwriad bellach yw derbyn crynodeb hanner blwyddyn ac yna'r adroddiad blynyddol ynghyd â diweddariadau perthnasol gan ECS yn ôl y galw. Diolchodd y Cadeirydd i ECS am gyflwyno'r adroddiad i'r

Ymddiriedolaeth.

Nodwyd fod swyddogion yn y broses o drafod amserlen a phroses ar gyfer adroddiad blynyddol 2014/15 gyda swyddogion yr Ymddiriedolaeth a'r DCMS er mwyn ei ymgorffori yn rhaglen waith y Pwyllgor Cynnwys.

Nododd y Cadeirydd ei fod yn disgwyl cadarnhad manylion ei gyfarfod gyda Rona Fairhead, Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC ac ECS ym mis Ionawr.

3.2 **iPlayer**

Adroddodd IHJ fod gwasanaeth S4C ar yr iPlayer wedi lansio ar y 25ain o Dachwedd. Roedd ymateb cadarnhaol iawn wedi ei dderbyn i'r lansiad. Mae IHJ wedi danfon neges at Tony Hall i ddiolch iddo fo a'i dîm am eu cefnogaeth i'r prosiect ers 2012.

Esboniwyd nad oedd lansiad swyddogol wedi ei gynnal gan fod S4C am sicrhau fod y meddalwedd a'r systemau'n sefydlog cyn tynnu sylw at y ddarpariaeth. Roedd cynlluniau ar y gweill gan yr Adran Farchnata er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth newydd.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

4.1 **Cynhadledd Cadeiryddion DCMS**

Esboniodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cynhadledd DCMS ar gyfer cadeiryddion cyrff cyhoeddus yn ddiweddar a chafwyd anerchiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Esboniodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn gefnogol i waith y cyrff sy'n cael eu noddi gan DCMS, ond bod angen parhau i gofio am y cyd-destun ariannol. Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid gyflwyniad gan nodi fod toriadau ariannol tu hwnt i'r etholiad cyffredinol yn debygol iawn, gan rybuddio'r cyrff cyhoeddus i gynllunio gyda gofal.

4.2 **Cynhadledd EBU**

[**Crynodeb:** Nododd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu nifer o gyfarfodydd diweddar gan gynnwys cynhadledd yr EBU.]

Roedd y gynhadledd, a drefnwyd gan yr EBU, yn ymwneud â gwasanaethau darlledu cyhoeddus, gan gynnwys sesiwn yn ystyried dulliau mesur cynulleidfa ac ati. Cyflwynwyd un sesiwn werthfawr iawn ar brosesu data gan Channel 4. Roedd wedi cael cyfle i drafod gyda rhai o swyddogion Channel 4 yn y gynhadledd. Nodwyd bod swyddogion eisoes yn trafod prosiectau perthnasol gyda Channel 4 megis y prosiect casglu data.

5. **Rheolau Sefydlog – Dogfen Materion wedi eu neilltuo i'r Awdurdod**

Cyflwynodd PW fersiwn ddiwygiedig o'r Rheolau Sefydlog, gan gynnwys yr atodiad parthed Materion Wedi eu Neilltuo i'r Awdurdod gan esbonio fod y fersiwn hon yn ymgorffori'r awgrymiadau pellach a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Tachwedd. Esboniwyd ei fod yn cael ei gyflwyno er mwyn derbyn cymeradwyaeth ffurfiol yr Awdurdod i'r ddogfen gyfan.

Cymeradwywyd y ddogfen.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

6.1 Ymunodd Carys Evans, Catrin Hughes Roberts, Steve Thomas a Jane Felix Richards â'r cyfarfod.

6.2 Cyflwynodd IHJ ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol:

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar Amcanion Corfforaethol 2014 er mwyn adrodd i'r Awdurdod ar gyflawniad S4C yn erbyn yr amcanion yn ystod y flwyddyn.

Cafwyd trafodaeth am yr adroddiad cynnydd a nodwyd ei bod yn adrodd ar y prosesau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Penderfynwyd y dylid diweddarau'r ddogfen er mwyn adrodd ar ganlyniadau'r gweithgareddau a pherfformiad y sianel yn erbyn yr amcanion.

Awgrymwyd y byddai cyfle yn ystod y Diwrnod i Draffod i drafod blaenoriaethau strategol S4C a barn yr Awdurdod am dargedau perthnasol ar gyfer y gwasanaeth.

6.3 [**Crynodeb:** Trafodwyd materion yn ymwneud â rhaglenni gan gynnwys **Am Ddrama** a'r strategaeth Dysgwyr.]

7. **Amcanion Gweithredol ar gyfer 2015**

Cyflwynwyd Amcanion Gweithredol drafft ar gyfer 2015 i'r Awdurdod.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r amcanion gweithredol.]

Nodwyd y bydd cyfle yn y Diwrnod i Draffod i drafod perfformiad y gwasanaeth ynghyd â'r blaenoriaethau strategol.

8. **Cyflwyniad data S4C**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd adroddiad gan Carys Evans yn esbonio'r gwaith sydd wedi ei wneud o ran datblygu strategaeth casglu data S4C a'r camau nesaf yn y prosiect.]

9. **Adroddiad Adran y Wasg**

Cyflwynodd ST adroddiad am waith Adran y Wasg.

[**Crynodeb:** Yn dilyn y cyflwyniad, trafodwyd y pwnc o ymateb i storïau yn y wasg am S4C.]

Holwyd sut y mae'r Adran Gyfathrebu'n asesu impact eu gweithgareddau, a sut mae mesur effaith y gweithgarwch ar berfformiad y gwasanaeth, gan gynnwys ffigyrau gwyllo. Esboniodd ST ei fod yn anodd mesur y cysylltiad rhwng gwaith cyfathrebu a pherfformiad y gwasanaeth, ond bod yr adran yn asesu beth yw gwerth y sylw sy'n cael ei roi yn y papurau newydd.

10. **Adroddiad yr Adran Farchnata**

Cyflwynodd JFR ei hadroddiad ar waith yr Adran Farchnata a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Eglurodd fod yr adran farchnata'n gweithio'n agos gyda'r adran gynnwys yn ogystal â'r wasg a phartneriaethau er mwyn cytuno ar flaenoriaethau'r gweithgareddau hyrwyddo. Rhoddodd amlinelliad o'r math o weithgareddau sy'n cael eu gweithredu gan yr adran gan esbonio'r dulliau gwahanol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer elfennau'r gwasanaeth ac er mwyn ceisio cyrraedd carfanau gwahanol o'r gynulleidfa, a'r rheini sydd ddim yn gwyllo S4C yn rheolaidd.

[**Crynodeb:** Trafodwyd materion yn ymwneud â'r rhaglenni.]

Awgrymwyd y gallai cyfranwyr a'r cwmnïau cynhyrchu wneud rhagor o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r gyfres ymlaen llaw gan ddefnyddio asedau sydd eisoes yn bodoli, e.e. pytiau o newyddion o ddiddordeb, lluniau ar y set ac ati, ac y gellid gwneud hyn heb dynnu oddi ar flaenoriaethau gwaith yr adran farchnata.

Esboniwyd fod S4C wedi bod yn trafod gyda TAC sut y byddai modd i'r cwmnïau cynhyrchu gynorthwyo gyda darparu clipiau byrion a deunydd ar gyfer llwyfannau cymdeithasol megis Twitter, Facebook ac Instagram a bod ymateb cadarnhaol wedi ei dderbyn gan TAC.

Diolchodd y Cadeirydd i CE, ST, CHR a JFR am eu cyflwyniadau.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol yn y dyfodol i baratoi un adroddiad cyfun yn ymwneud â gweithgareddau cyfathrebu'r chwarter blwyddyn, ac i hynny gyfateb i'r Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi chwarterol. Nodwyd bod yr Aelodau'n awyddus i ddeall rhagor am sut mae'r adrannau'n blaenoriaethu a thargedu'r gwaith cyfathrebu, beth yw'r impact y mae'n ei gael a sut mae asesu llwyddiant hyn, gan gynnwys gwerth am arian yr amryw weithgareddau.

11. **Uwch Gynhyrchydd / Golygydd Chwaraeon**

Nododd IHJ ei fod yn parhau i ystyried penodi uwch gynhyrchydd/golygydd ar gyfer y ddarpariaeth chwaraeon ac y bydd yn rhoi diweddariad i'r Awdurdod maes o law.

12. **Adroddiad Gwifren**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd Adroddiad y Wifren Gwylwyr]

13. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth ac Adroddiad o'r Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwynion a chyflwynodd JD adroddiad o'r Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 13eg o Dachwedd.

Cyfeiriwyd at gofnodion y Pwyllgor a nodwyd fod gwaith rheolaidd y Pwyllgor yn ymwneud â derbyn adroddiadau am gwynion sydd wedi eu cyflwyno a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, gyda'r Pwyllgor yn delio gydag apeliadau mewnol o dan y drefn rhyddid gwybodaeth pan yn berthnasol.

[**Crynodeb:** Trafodwyd rhai o'r ceisiadau rhyddid gwybodaeth a dderbyniwyd yn ddiweddar]

14. **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Cyflwynodd HHE adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Soniodd ei fod am gyfarfod gyda PW ddydd Llun i drafod materion ymhellach.

Nodwyd bod y Pwyllgor yn awyddus i ail-ystyried y Risgiau Corfforaethol fel rhan o raglen waith y Pwyllgor.

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi penderfynu ystyried ymhellach waith a dulliau adrodd S4C mewn perthynas â gwerth am arian cyn paratoi Adroddiad Blynyddol 2014/15.

Nodwyd bod y Pwyllgor wedi ystyried nifer o adroddiadau oddi wrth yr archwilwyr mewnol.

Nodwyd y bydd tendr ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr, gyda'r Pwyllgor yn cyfweled ymgeiswyr cyn cyflwyno argymhelliad i'r Awdurdod ym mis Chwefror/Mawrth.

15. **Adroddiad y Pwyllgor Cynnwys**

Yn absenoldeb AE, cyflwynwyd yr adroddiad gan HJ.

Cafwyd trafodaeth am fformat a lleoliadau'r nosweithiau gwylwyr ar gyfer 2015, a nodwyd y bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod maes o law.

Cyflwynwyd Canllawiau Obit newydd ar gyfer cymeradwyaeth yr Awdurdod. Esboniwyd fod y BBC wedi newid eu canllawiau ar gyfer Categori 2 ers cyflwyno'r argymhelliad gwreiddiol i'r Pwyllgor, a bod swyddogion yn trafod y newidiadau gyda'r BBC er mwyn cyflwyno argymhelliad diwygiedig a fydd yn sicrhau cysondeb rhwng trefniadau S4C a'r BBC.

Esboniwyd mai'r bwriad yw y byddai'r argymhelliad gwreiddiol yn cael ei weithredu nes bydd rhagor o wybodaeth wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Cymeradwydd yr Awdurdod yr argymhelliad.

16. **Diwrnod i Drafod**

Cylchredwyd agenda drafft i'r aelodau, a gofynnodd y Cadeirydd iddynt ddanfon eu sylwadau ato er mwyn sicrhau bod yr agenda yn cynnwys y materion strategol y mae'r Aelodau'n awyddus i'w hystyried.

17. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am y rhaglenni a ddarllledwyd yn ystod y mis.]

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau i'r drafodaeth.

18. **Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf, Diwrnod i Drafod: Dydd Iau, 8 Ionawr 2015